Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Yr Angel Cyllyll yn y Drenewydd, Powys

# Ionawr 2020

## Arfarniad ar ôl Ymgysylltu



COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## Rhagair

Bu'n fraint i mi i gefnogi a noddi ymweliad cyntaf yr Angel Cyllyll â Chymru wrth i ni groesawu'r cerflun i'r Drenewydd, Powys, ym mis Ionawr 2020.

Drwy ddod â'r Angel i'r Drenewydd, ymrwymodd fy swyddfa â Chyngor Sir Powys i gynnal 28 diwrnod o raglenni a gweithdai addysgol dwys. Hefyd, dyna'r rhanbarth cyntaf i ymrwymo i dargedu a dirprwyo 10,000 o Hyrwyddwyr Atal Trais. Mae'r ymgyrch hon yn cynnwys ysgolion a grwpiau ieuenctid drwy alluogi pobl ifainc i sefyll yn erbyn pob math o drais ac ymddygiad ymosodol, nid dim ond troseddau cyllyll. Mae sawl ysgol ym Mhowys wedi ymweld â'r Angel Cyllyll, ac wedi elwa o'r gweithdai a drefnwyd – yn arbennig Sgwrs Ysgolion ymgyrch Fearless yr elusen Crimestoppers, pwy dwi'n ei ariannu.

Ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r lle mwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr, ac mae gennym lefelau isel iawn o droseddau treisgar a materion sy'n ymwneud â chyllyll. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio bod yn ddifater o ran tueddiadau presennol, ac fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, fy ngobaith yw y bydd ein cymunedau'n parhau'n ddiogel ac y byddwn yn cymryd ymagwedd ataliol tuag at leihau trosedd dros y tymor hir.

Rwy'n gweld yr ardal hon fel rhywle sydd ar y rheng flaen o ran atal troseddolrwydd rhag treiddio i mewn i'n cymunedau. Mae ein neges Angel Cyllyll yn ymwneud ag atal - rwy'n awyddus i weld Dyfed-Powys yn parhau fel y lle mwyaf diogel, ac rwyf eisiau i'n pobl ifainc deimlo'n ddiogel a sicr. Ni fydd unrhyw fath o drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef.

Yn ystod ymweliad yr Angel, gosodwyd bin amnest cyllyll wrth ei ymyl, gan annog pawb i ildio unrhyw gyllyll er mwyn arbed bywydau. Gwagiwyd y bin cyn i'r Angel adael. Roedd y bin yn llawn. Cadarnhaodd Canolfan Gwaith Haearn Prydain y bydd yn creu darn o'r llafnau sydd wedi'u hildio. Ar ôl ei gwblhau, bydd y darn hwn yn cael ei arddangos ym Mhowys.

Er nad oes unrhyw ffigurau swyddogol wedi'u cofnodi ar gyfer nifer y bobl sydd wedi ymweld â'r gofeb, mae trefnwyr a gwirfoddolwyr yn amcangyfrif bod miloedd wedi ymweld â hi yn ystod y dydd a'r nos, gyda nifer yn teithio i'r Drenewydd o bob cwr o'r DU.

Rwy'n gobeithio y gallaf hawlio mai fi oedd y cyntaf i groesawu'r Angel yn Gymraeg. Teimlaf yn llawn cyffro am yr hyn yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni yma yn y Drenewydd ac rwy'n edrych ymlaen i groesawu'r Angel yn ol i Dyfed-Powys pan fydd yn ymweld ag Aberystwyth yng Ngheredigion yn 2021.



Dafydd Llywelyn

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys

# Cyflwyniad

Cyrhaeddodd yr Angel Cyllyll y Drenewydd, Powys, ddydd Gwener 3 Ionawr, 2020, a safodd yn fawreddog y tu allan i Oriel Davies tan ddydd Mercher 29 Ionawr 2020. Mae'r Angel Cyllyll, a grëwyd gan Ganolfan Gwaith Haearn Prydain yn Swydd Amwythig, wedi bod yn teithio'r DU mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng troseddau cyllyll sy'n effeithio ar gymunedau, teuluoedd ac unigolion.

Lansiodd y Ganolfan ei hymgyrch 'Save a Life, Surrender Your Knife' yn ystod 2015 a 2016, gan weithio gyda'r Swyddfa Gartref a heddluoedd i gynnal amnestau cyllyll i gasglu'r deunydd yr oedd ei angen ar gyfer y cerflun. Cafodd cyfanswm o 200 o fanciau cyllyll eu creu gan y Ganolfan a'u danfon i heddluoedd amrywiol a gasglodd filoedd o gyllyll ac arfau, a gyflwynwyd yn ddiweddarach i'r arlunydd Alfie Bradley a oedd wedi'i gomisiynu i greu'r Angel Cyllyll.

Creodd Alfie'r strwythur allan o ddur yn gyntaf, cyn weldio cyllyll a oedd wedi'u diheintio a'u pylu i greu edrychiad pluog yr Angel, a adeiladwyd o dros 100,000 o gyllyll a gasglwyd yn yr amnestau cyllyll, gan gynnwys cyllyll o ardal Dyfed-Powys.

Mae'r cerflun, sy'n 8 metr o uchder, hefyd yn cydnabod y rhai y mae troseddau cyllyll wedi difetha eu bywydau ac mae'n gofeb i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth.

Gweithiodd y Ganolfan yn agos gyda nifer o elusennau a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan droseddau cyllyll a throseddau treisgar. Roedd hyn yn bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith ddinistriol troseddau cyllyll. Fe wnaeth y Ganolfan hefyd wahodd teuluoedd y rhai sydd wedi colli eu bywydau i droseddau cyllyll a throseddu treisgar i ysgythru negeseuon ar y llafnau a gâi eu cynnwys yn y cerflun.

Ymdrech gydweithredol yn sicr oedd y broses o ddod â'r Angel Cyllyll i'r Drenewydd. I Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn, a Chynghorydd Sir Powys, Joy Jones, y mae'r diolch fod y Gofeb Genedlaethol yn erbyn Trais ac Ymddygiad Ymosodol wedi dod i Gymru am y tro cyntaf.

Hwn oedd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i estyn gwahoddiad - y cyntaf i groesawu'r Angel Cyllyll yn ddwyieithog - mewn ymgais i roi hwb i'r neges gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol ar gyfer y gymuned gyfan. Dyma a wnaeth arhosiad yr Angel yn y Drenewydd yn achlysur gwirioneddol gofiadwy.

Ar ôl cadarnhau y byddai'r Angel yn ymweld â'r Drenewydd, lansiwyd rhaglen lwyddiannus iawn o waith ymgysylltu â phobl ifanc drwy'r dref, gan rannu'r neges gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol am fis.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y gweithgarwch ymgysylltu helaeth a wnaed, yn ogystal â'r effaith a gafodd ymweliad yr Angel Cyllyll.




***Rhes gefn:*** *Y Cynghorydd David Selby, Helen Shayle – Swyddog Ymgysylltu - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Beverley Baynham, y Rhingyll Matthew Price, Mary Tudor - Siambr Fasnach y Drenewydd, y Prif Gwnstabl Mark Collins, y Cynghorydd Rosemarie Harris, Dr Greg Langridge-Thomas – Cyngor Sir Powys, Gwen Evans – Gweithiwr Ieuenctid ym Mhowys.*

***Rhes flaen:*** *Alfie Bradley – Cerflunydd yr Angel Cyllyll, Clive Knowles – Cadeirydd Canolfan Gwaith Haearn Prydain, y Cynghorydd Joy Jones, Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.*

## Llywodraethiant

Ym mis Rhagfyr 2019, cysylltodd Cynghorydd y Drenewydd, Joy Jones, â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i geisio cefnogaeth ar gyfer ei hymgyrch i ddod â'r Angel Cyllyll i Bowys.

Roedd y Cynghorydd eisoes wedi ymweld â'r Angel yng Nghanolfan Gwaith Haearn Prydain ac roedd yn gwerthfawrogi'r neges yr oedd yn ceisio ei chyfleu i'r cyhoedd. Ar ôl dysgu bod yr Angel yn teithio'r wlad, aeth y Cynghorydd ati i sicrhau bod Powys yn cael ei gynnwys ar y deithlen.

Roedd y Comisiynydd Dafydd Llywelyn yn cefnogi ymgyrch y Cynghorydd yn llwyr a gyda'i gilydd, aethant ati i weithio gyda Chanolfan Gwaith Haearn Prydain i sicrhau y deuai'r Angel i'r Drenewydd ddechrau Ionawr 2020.

Cynhaliwyd y gwaith cynllunio ar gyfer ymweliad yr Angel mewn cyfnod byr iawn gan dîm bach o staff yn Swyddfa'r Comisiynydd, ar y cyd ag Arolygydd Tîm Plismona Bro lleol Heddlu Dyfed-Powys a'r Cynghorydd, Joy Jones.

## Yr Angel yn Cyrraedd

Cyrhaeddodd yr Angel Cyllyll y Drenewydd ar 3 Ionawr 2020. Y bore hwnnw, hebryngwyd yr Angel gan fintai o Feiciau Gwaed a beiciau modur Heddlu Dyfed-Powys i'w gartref dros dro newydd y tu allan i Oriel Davies yn Y Parc yn y Drenewydd. Dyma'r tro cyntaf i'r Beiciau Gwaed ymwneud â'r gwaith o hebrwng yr Angel Cyllyll ar ei daith o amgylch y DU.


Ar y pryd, dywedodd y Cynghorydd Joy Jones: *"Mae Canolfan Gwaith Haearn Prydain, ynghyd â'r arlunydd Alfie Bradley, wedi creu'r darn pwysig hwn i helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogi negeseuon gwrth-drais o bob math. Powys yw'r sir gyntaf yng Nghymru i'r Angel Cyllyll ymweld â hi.*

*"Fe fydd yma drwy gydol mis Ionawr, sy'n rhoi amser i bobl ymweld a gwerthfawrogi'r gwaith sydd wedi mynd i mewn i'r gofeb a deall ei neges yn erbyn trais. Bydd amryw o ddigwyddiadau addysg yn ategu'r ymweliad, a bydd llawer o sefydliadau'n cymryd rhan yn yr ymweliad arbennig hwn."*



*Yr Angel Cyllyll yn cyrraedd y Drenewydd, wedi'i hebrwng gan y Beiciau Gwaed ac Uned Plismona Ffyrdd y Drenewydd*

*Lluniau gan Dr Greg Langridge-Thomas*



# Y Seremoni Agoriadol

Cynhaliwyd y Seremoni Agoriadol ddydd Sadwrn 4 Ionawr yn y Drenewydd. Cafodd ei threfnu a'i harwain gan y Cynghorydd Joy Jones, ac ymhlith y rhai a fynychoedd roedd y Comisiynydd Dafydd Llywelyn, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys Mark Collins, Dr Greg Langridge-Thomas o Gyngor Sir Powys, Clive Knowles, Cadeirydd Canolfan Gwaith Haearn Prydain, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Tref y Drenewydd, Cyngor Sir Powys, a Heddlu Dyfed-Powys.

Daeth nifer fawr o drigolion lleol a pherchnogion busnes i'r Seremoni Agoriadol, lle clywsant gan nifer o siaradwyr a bwysleisiodd bwysigrwydd yr ymweliad, gan ailadrodd y negeseuon allweddol yn erbyn cyllyll a thrais. Ychwanegodd y Comisiynydd ei bod yn anrhydedd iddo allu cefnogi ymweliad cyntaf yr Angel â Chymru.

Yn ystod y Seremoni Agoriadol, cyflwynwyd Gwobr Gwrth-drais Genedlaethol i gynrychiolwyr o nifer o'r sefydliadau a fu'n gysylltiedig â'r broses o ddod â'r Angel Cyllyll i'r Drenewydd; enwebwyd y rhain gan Clive Knowles. Rhoddwyd y wobr hon i gydnabod eu heffaith gadarnhaol ar sir Powys, eu gwaith o fynd i'r afael â phroblem genedlaethol ac am gefnogi taith y Gofeb Genedlaethol yn erbyn Trais ac Ymddygiad Ymosodol, 'Yr Angel Cyllyll', o gwmpas y DU.





*Lluniau a dynnwyd yn y Seremoni Agoriadol ar gyfer yr Angel Cyllyll.*

## Sylw yn y wasg

Cyn iddo gyrraedd y Drenewydd, roedd yr Angel Cyllyll wedi denu sylw'r cyfryngau; yn lleol ac yn genedlaethol:

'Knife Angel: Newtown, Powys, to host sculpture', BBC News
https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50540121

'Knife Angel is coming to Newtown', MyNewtown.co.uk
http://www.mynewtown.co.uk/viewerheadline/ArticleId/15499

Roedd yn dda gweld llawer o gynrychiolwyr o'r cyfryngau yn bresennol ar y safle drwy gydol y mis, yn rhoi cyhoeddusrwydd haeddiannol i ymweliad yr Angel Cyllyll a'r negeseuon yr oedd ei daith yn eu hyrwyddo.





Rhoddwyd sylw i'r Seremoni Gloi yn y wasg leol:

- 'Closing ceremony ahead of Knife Angel's departure from Newtown', Shropshire Star [https://www.shropshirestar.com/news/local-hubs/mid-wales/newtown/2020/01/23/closing-ceremony-in-newtown-for-knife-angel/](https://www.shropshirestar.com/news/local-hubs/mid-wales/newtown/2020/01/23/closing-ceremony-in-newtown-for-knife-angel/)

Yn ogystal, mae unigolion a sefydliadau'r cyfryngau wedi creu fideos ar ôl yr ymweliad mis o hyd, sy'n dangos yn glir pa mor bwysig oedd yr ymweliad hwn i'r Drenewydd:

- 'The Knife Angel, Newtown, Powys', gan Derrick Pugh o PVPTV News https://youtu.be/bJOaoRa37G0
- 'Knife Angel – Powys Standing Up Against Violence!' gan Gwyn Cole, Gwneuthurwr Ffilmiau https://vimeo.com/427002814

Roedd ymweliad yr Angel Cyllyll hefyd yn gyfle i ymwelwyr gymryd rhan mewn cystadleuaeth celf gyhoeddus a ffotograffiaeth, a gynhaliwyd gan Ganolfan Gwaith Haearn Prydain, gan ysbrydoli pobl ifanc ac ysgolion i gymryd rhan. Gellid gweld llawer o'r lluniau hyn ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y mis.

## Ymwelwyr

Er nad oes ffigyrau swyddogol wedi eu cofnodi o ran nifer y bobl wnaeth ymweld â'r cerflun, amcangyfrifodd y trefnwyr a'r gwirfoddolwyr fod miloedd wedi ymweld yn ystod y nos a'r dydd - gyda llawer yn teithio i'r Drenewydd o bob cwr o'r DU.

Roedd yr ymwelwyr yn cynnwys sefydliadau lleol, ysgolion, grwpiau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd. Daethant i gymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau oedd yn digwydd o gwmpas y cerflun ac i weld y goleuadau trawiadol a osodwyd er mwyn gwneud i'r Angel ddisgleirio yn ystod y nos.



Lleoliadau'r Ymwelwyr (nid dyma'r unig rai)

Powys
Birmingham
Bryste
Caergrawnt
Hampshire
Henffordd
Llundain
Milton Keynes
Telford

# Adborth gan y rhai a welodd yr Angel

*"Mor bwerus, mae'n datgan neges mor bwysig. Gwych gweld Angel heddwch yn y Drenewydd."*

*"Mae'n procio'r meddwl, gan godi ymwybyddiaeth a datgan nad yw trais o unrhyw fath yn dderbyniol."*

*"Anhygoel a phwerus – yn bendant yn werth ei weld."*

*"Mae hyn mor bwerus o ran annog pobl i roi eu cyllyll o'r neilltu. Da iawn y Drenewydd am roi cartref i'r Angel am gyfnod."*

*"Mae'r angel yn deyrnged wych i bawb sydd wedi dioddef neu wedi colli eu bywydau oherwydd cyllyll."*

*"Ysbrydoledig – dylai pawb ymweld â'r Angel."*



# Gweithgareddau

Dechreuodd rhaglen ddwys o fis o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc law yn llaw â dyfodiad y cerflun yn y Drenewydd, i rannu'r negeseuon pwysig yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol.

Cyflawnwyd y gwaith o gynllunio'r gweithgareddau hyn o fewn un mis, unwaith y cadarnhawyd ymweliad yr Angel Cyllyll, diolch i Ringyll Heddlu Dyfed-Powys, Matthew Price, y Swyddog Ymgysylltu ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Helen Shayle, Cynghorydd Sir Powys, Joy Jones, a llawer o bartneriaid eraill.

Ymgymerodd Heddlu Dyfed-Powys ag ystod o weithgareddau i ymgysylltu â'r cyhoedd a thynnu sylw at y peryglon sy'n gysylltiedig â throseddau cyllyll yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd. Meddai'r Rhingyll Matthew Price: "*Roedd ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd yn gyfle i Bowys sefyll yn unfryd unfarn ac datgan bod y sir yn daer yn erbyn trais.*

*"Cawsom ymwelwyr o bob cwr o'r DU a chynhaliwyd ymgyrch yn ystod y mis i hybu addysg ac ymwybyddiaeth. Fel Sir, rydym wedi dangos pa wasanaethau a chynlluniau sydd ar gael a faint o bobl sy'n barod i gamu i'r adwy a helpu.*

*"Y prif nod wrth gynnal yr ymweliad oedd addysgu: ymgysylltwyd â phob ysgol ym Mhowys a chynigiwyd rhaglenni addysg yn y gobaith o godi ymwybyddiaeth a diogelu cenedlaethau'r dyfodol."*



*Ysgol Dafydd Llwyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau.*

# Ymweliadau gan Ysgolion

Gweithiodd Swyddfa'r Comisiynydd gyda sawl ysgol yn yr ardal i drefnu ymweliadau addysgiadol â'r Angel Cyllyll; ymwelodd 14 o ysgolion â'r cerflun. Roedd hyn yn cynnwys Ysgol Dafydd Llwyd, a roddodd y trosolwg canlynol o'i hymweliad:

*"Gwyddem fod amrywiaeth o emosiynau'n cydblethu gerbron yr Angel – cyffro, penbleth, tristwch, dicter, balchder. Felly, pan aeth Ysgol Dafydd Llwyd â grwpiau o ddisgyblion CA2 rhwng 7 ac 11 oed i ymweld, gwelsom yr emosiynau hynny yn ymateb y disgyblion.*

*"Digwyddodd ein hymweliad cyntaf ar y cyd ag ymweliad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd hyn yn hynod fuddiol oherwydd bod gan ein disgyblion gynifer o gwestiynau a llwyddodd Mr Dafydd Llywelyn i'w hateb. Rhyfeddodd llawer o ddisgyblion at faint y cerflun – roedd yn enfawr!*

*"Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n ymwneud â'r broses o greu'r cerflun. Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi'u syfrdanu o weld nifer y cyllyll a oedd yn ffurfio adenydd yr angel. O bell, doeddech chi ddim yn gallu gweld hyn. Felly ymdeimlad o sioc oedd ymateb y plant. Yr hyn a ychwanegai at yr ymdeimlad hwn o sioc oedd gweld enwau ar lawer o'r cyllyll – naill ai'n ddioddefwyr neu'n rhai a oedd wedi rhoi eu cyllyll at ddiben creu'r darn. Atgyfnerthodd hyn y neges i bawb a ymwelodd â'r cerflun.*

*"Syllodd llawer o blant mewn tawelwch ar Angel Cyllyll, gan fyfyrio'n dawel wrth eu hunain. Cwestiynodd rhai y cyferbyniad rhwng y ddau air yn yr enw – sut mae modd defnyddio cyllell ac angel gyda'i gilydd?*

*"Roedd pob un o'n plant yn meddwl ei bod yn hollbwysig mai'r Drenewydd a ddewiswyd i dynnu sylw at yr angen am ddiogelwch: dywedasant fod y digwyddiadau pwysicaf yn digwydd naill ai yn y de neu'r gogledd - bron byth yn y Canolbarth.*

*"Roedd y Cynghorydd Joy Jones hefyd yn bresennol. Fel cymuned rydym yn hynod o falch o waith caled y Cynghorydd o ran galluogi'r Angel Cyllyll i ddod i'r Drenewydd. Yn sicr, mae'r ymweliad hwn wedi procio'r meddwl a gobeithio ei fod wedi gwneud i bob plentyn ac oedolyn sylweddoli mai'r un rhinwedd bwysig mewn bywyd yw cariad."*

Roedd y Comisiynydd yn falch iawn o weld cynifer o blant a phobl ifanc yn bresennol, a dywedodd:

*"Mae'n bleser gen i weld cynifer o bobl ifanc yn ymddiddori yn y neges y tu ôl i'r cerflun, ac i mi gael dealltwriaeth o'u profiad a'u barn nhw am droseddau treisgar*."









*Ysgol Dafydd Llwyd mewn trafodaeth gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.*

## Cyngor Sir Powys

Trefnodd Gwen Evans, sy'n Weithiwr Ieuenctid ym Mhowys, ddogfen adnoddau Angel Cyllyll a groesawyd yn ei chlybiau ieuenctid ac mewn ysgolion lleol, a chreodd Cyngor Sir Powys adnodd Angel Cyllyll yn arbennig ar gyfer y rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae’n adnodd sydd *"wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth ac amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn helpu pobl ifanc i ystyried y materion sy'n gysylltiedig â thrais a'u helpu i wneud dewisiadau gwell a mwy gwybodus."* (Cyngor Sir Powys)




## Grwpiau Ieuenctid

Drwy gydol mis Ionawr, cynhaliwyd gweithdai Gwrth-drais yn y Canolfannau Ieuenctid lleol, ynghyd ag ymweliadau â'r Angel. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn gwahanol weithgareddau gan hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a thrafod canlyniadau trais.

Cydweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid â'r Tîm Plismona Bro lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), y Gegin Gawl leol, Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn, a llawer o gyfranwyr eraill, i gyflwyno negeseuon allweddol.

Dywedodd y Cynghorydd Joy Jones:

*"Mae plant ysgol wedi ymweld, ac mae grwpiau ieuenctid lleol wedi cymryd rhan wrth i’r neges wrth-drais gael ei lledaenu drwy ein cymuned. Y tu mewn i'r babell, mae negeseuon o obaith wedi eu hysgrifennu gan blant."*

*Negeseuon o obaith wedi eu hysgrifennu gan bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau’n gysylltiedig â’r Angel Cyllyll.*




Write your
message and
take your
photograph in
front of the
Angel's Wings



# Y Daith Fygis

Trefnodd Canolfan Deuluol Integredig y Drenewydd daith gerdded ac ymweliad i gael golwg ar yr Angel Cyllyll.

Mynychodd 28 o unigolion gan gynnwys Cecila Harmon o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Powys, Heidi Bentley a Clair Humphreys o'r adran Iechyd, Grŵp Rhieni a Phlant Bach Magik, a'r Cynghorydd Joy Jones.

Trefnwyd y daith gerdded i ddysgu am darddiad ac ystyr y cerflun, a dilynwyd hynny gan weithgareddau crefft yn ôl yng Nghanolfan Deuluol Integredig y Drenewydd.



# Fearless

Mae Fearless yn wefan lle gallwch gael gwybodaeth a chyngor am droseddu a throseddolrwydd, heb neb i'ch barnu. Yn ystod mis Ionawr 2020, aeth Fearless i weld cerflun yr Angel Cyllyll yn y Drenewydd i gyflwyno sesiynau ar droseddau cyllyll i bobl ifanc o'r ysgolion lleol. Roedd y sesiynau'n llwyddiant ysgubol ac fe'u cynhaliwyd dros gyfnod o dri diwrnod. Roedd y sesiynau'n cynnwys gwybodaeth am yr Angel Cyllyll ei hun, gwybodaeth am ganlyniadau cario cyllell, fideo byr gan un a ddioddefodd ymosodiad â chyllell, a gwybodaeth hefyd am bwy i siarad â hwy os ydynt yn meddwl efallai fod rhywun y maent yn ei adnabod fod yn cario cyllell. Rhoddwyd gwybod i'r disgyblion hefyd sut i adrodd am droseddau a thrafodwyd eu hopsiynau gyda nhw.

Casglodd Fearless adborth a sylwadau gan y bobl ifanc ar fuddion y sesiynau, a dyma rai o'r datganiadau a gafwyd:

> *"Doeddwn i ddim yn gwybod ei bod hi'n bosib mynd i helynt dim ond am gario cyllell."*
>
> Sylw gan berson ifanc

> *"Fe wnes i fwynhau'r sesiwn yn fawr. Mae wir wedi gwneud i mi feddwl ddwywaith am gario cyllell ar unrhyw adeg."*
>
> Sylw gan ddisgybl o Ysgol Uwchradd y Drenewydd.






*Y Cynghorydd Joy Jones a Dan Evans o Fearless*




*Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda Fearless*







*Ella Rabaiotti – Rheolwr Cenedlaethol Cymru Crime Stoppers Trust.*

Dros gyfnod o dri diwrnod, cyflwynodd Fearless sesiynau i 306 o bobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys 141 o blant ysgol gynradd ym mlynyddoedd 5 a 6, a 165 o blant ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 7 i 11.

Cyfanswm nifer y bobl ifanc y cyflwynwyd sesiynau iddynt: **306**

Nifer y plant ysgol gynradd y cyflwynwyd sesiynau iddynt (blwyddyn 5 a 6): **141**

Nifer y myfyrwyr o ysgolion cyfun y cyflwynwyd sesiynau iddynt (blwyddyn 7-11): **165**

## New Pathways

Cyflwynodd Jennie Dowsell, Cydlynydd Prosiectau a Hyfforddwr ar gyfer New Pathways, Brosiect Cymunedol SURE ar gyfer Iechyd Meddwl gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd y Drenewydd, yn ystod ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd ym mis Ionawr 2020.

Dywedodd Jennie *"Fe wnes i gasglu adborth gan y plant ar ôl y gweithdy ac fe ddywedon nhw eu bod nhw wedi dysgu am yr ymennydd a sut mae'n gweithio (fe wnaethon ni adran ar ymatebion ymladd neu ffoi), a dysgon nhw fod rhai emosiynau'n haws eu rheoli nag eraill; dysgon nhw hefyd nad yw pob emosiwn yn dda neu'n ddrwg, weithiau maen nhw'n gallu bod yn niwtral neu berthyn i'r ddau, ac yn hytrach nag ymateb i emosiwn, gallan nhw feddwl am y peth a gwneud dewis ynglŷn â beth i'w wneud â'r emosiwn hwnnw.*

*"Eu hoff ran oedd tynnu llun person ar ddarn mawr o bapur mewn grwpiau, a siarad am yr ymatebion y gallai rhywun eu cael pan fyddan nhw'n teimlo'n ofnus neu'n ofidus, a tynnu lluniau o'r rhain mewn ffordd greadigol."*

NEW PATHWAYS

## Cadetiaid yr Heddlu

Cynhaliwyd digwyddiad undydd yn ymwneud â recriwtio ar gyfer Cwnstabliaid Gwirfoddol, Cadetiaid yr Heddlu a Thîm Plismona Bro'r Drenewydd, ddydd Sadwrn 18 Ionawr 2020.



Roedd yn agored i bob aelod o'r cyhoedd fynychu, ac o ganlyniad uniongyrchol i hyn, cafodd Cadet Heddlu newydd ei gyfweld.

Rhoddwyd mewnbwn recriwtio hefyd i ddisgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion ar 31 Ionawr.

# Girlguiding Sir Drefaldwyn

Rhoddodd Ysgrifennydd Girlguiding Sir Drefaldwyn, Pam Lyons, ddiweddariad i'r Comisiynydd ar waith ymgysylltu’r sefydliad mewn perthynas â’r Angel Cyllyll:

*"Ym mis Ionawr 2020, roeddwn wrth fy modd i allu bod yn wirfoddolwr pan groesawodd y Drenewydd yr Angel Cyllyll ar ei ymweliad cyntaf â Chymru. Roedd yn anrhydedd gwneud hynny ac roedd yn hyfryd treulio amser gydag ymwelwyr o bell ac agos yn rhoi gwybodaeth iddynt am yr Angel Cyllyll.*

*"Rwy'n aelod o Girlguiding Sir Drefaldwyn, felly fe wnes i annog aelodau o’r guides o bob rhan o'n sir i ddod â'u hunedau nhw i ymweld â'r Angel.*

*"Rhoddwyd y syniad o gynnal cystadleuaeth farddoniaeth i mi gan Joy Jones ac fe neidiais at y cyfle’n syth. Dim ond amserlen fer oedd gennym i drefnu hyn gan y byddai’r cerddi buddugol yn cael eu darllen yn y seremoni gloi.*

*"Byddai enillydd yn cael ei bigo o bob un o'r canlynol: Enfysau 5-7, Brownis 7-10, Ceidwaid 10-14 a’r Ceidwaid 14-16.*

*"Ceisiais ganiatâd gan ein Pwyllgor Gweithredol Sirol, a chadwyd at Reoliadau Diogelu GDPR a GGUK.*

*"Er gwaethaf y rhybudd byr iawn, anfonwyd cerddi o bob cwr o'r sir, a'r enillwyr oedd:*

1. *Enfysau – Nia, 6 oed, Cylch Bro Ddyfi;*
2. *Brownis – Eva, 9 oed, Cylch y Drenewydd; a*
3. *Geidiaid – Betsan, 10 oed, Cylch Bro Ddyfi.*
4. *Nid oedd unrhyw gynigion gan y Ceidwaid.*

*"Gwahoddwyd pob un o'r merched a'u rhieni i gyflwyniad ffurfiol y seremoni gloi.*

*"Yn anffodus, doedd Nia ddim yn gallu mynychu ond cafodd Eva a Betsan amser hyfryd, ac roeddent wrth eu boddau’n derbyn eu gwobr. Rhoddwyd gwobr Nia i Betsan i’w rhoi iddi.*

*"Roedd yn anrhydedd cael cynrychioli Girlguiding Sir Drefaldwyn yn y digwyddiad."*





## BULLYING

Bullying makes me sad because I don’t like it.

They are being so mean.

Go away bullies or I will scream.

*Cerdd gan Nia, 6 oed*

I dont like bullying,
It makes me feel down,
bullying is bad.
It makes me have a frown.

Bullying is not fun,
you just want it to stop,
bullies are not worth crying,
you just need to let it pop!

Nobody likes bullying,
It's not good at all,
it makes me so angry,
It just makes me fall.

You need to be brave,
you need to have fun,
Soon the bullies,
will just Run, Run, Run.

*Cerdd gan Eva, 9 oed*

**K**now when enough is enough
**N**ever use knives in violence
**I**t's time to stop!
**F**orever learn the consequences
**E**veryone has a right to their life

**C**ommunities are taking action
**R**ealising
**I**t
**M**atters
**E**nough is enough!!!

*Cerdd gan Betsan, 10 oed*

# Brownis y Drenewydd

Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith celf hyfryd a grewyd gan Brownis y Drenewydd.











## Cegin Gawl y Caffi Cymunedol

Darparodd y Caffi Cymunedol gawl, rholiau a chacennau yn rhad ac am ddim mewn digwyddiad cymunedol llwyddiannus ym Mhabell yr Angel Cyllyll.

Daeth dros 50 o bobl i fwynhau'r bwyd cartref, i gyfarfod ag eraill yn y gymuned ac i weld yr Angel Cyllyll.

Roedd hwn hefyd yn gyfle gwych i hyrwyddo'r caffi Cymunedol a'r prydau poeth a ddarperir ganddynt bob wythnos.

Mae'r caffi Cymunedol yn grŵp cymunedol gwirfoddol sy'n darparu prydau i bobl yn y Drenewydd bob dydd Mercher yn Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd.

## Digwyddiadau Amlasiantaeth

Dechreuodd ymweliad yr Angel Cyllyll â dau ddigwyddiad galw heibio amlasiantaeth ym Mhabell yr Angel, yn ystod amser cinio.

Roedd hwn yn gyfle i wasanaethau, gan gynnwys Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn (MFCC), y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid (YIS), tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI), y Gwasanaeth Ieuenctid, Ponthafren a Chanolfan Deuluol Integredig y Drenewydd, gydweithio i ddarparu gwybodaeth a chyngor am y gwasanaethau sydd ar gael i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion yn ardal y Drenewydd

## Sesiynau Gwrth-drais ar gyfer Clybiau Ieuenctid

Cynhaliwyd gweithdai gwrth-drais yn y Canolfannau Ieuenctid hefyd. Defnyddiwyd gweithgareddau o'r Pecyn Adnoddau i archwilio agweddau a phrofiadau pobl ifanc o droseddau treisgar. Trafododd y grwpiau wahanol fathau o arfau; soniodd un person ifanc fod ffrind wedi gofyn iddo gario arf yr oedd wedi'i lunio. Arweiniodd y drafodaeth hon at sgwrs am yr heddlu, ei agweddau rhagdybiedig mewn perthynas â rhai pobl ifanc, a'r systemau llys.

Yna, myfyriodd y bobl ifanc ar effaith trosedd ar eu teuluoedd, eu cymunedau a'r hyn yr oedden nhw'n ei weld yn ymddygiad derbyniol.

Dywedodd y bobl ifanc fod defnyddio alcohol a chyffuriau yn ffactor arwyddocaol yn y cynnydd mewn gwrthdaro a thrais; a chyfaddefwyd bod y rhan fwyaf o'r gwrthdaro o fewn eu grŵp cyfoedion/cartrefi, yn troi'n dreisgar pan ddefnyddir alcohol / cyffuriau.

Rhannodd y bobl ifanc straeon personol am anafiadau tymor hir i aelodau o'r teulu a brodyr hŷn sy'n treulio'u dedfryd yn y carchar.

Roedd y drafodaeth ynghylch trais yn y cartref yn sesiwn heriol. Defnyddiwyd gweithgareddau o'r pecyn adnoddau i hyrwyddo sgyrsiau; gan gynnwys gofyn i'r bobl ifanc a oedd yn dderbyniol herio barn y bobl yr ydym yn meddwl yn fawr ohonynt. Rhannwyd manylion cyswllt y Llinell Gymorth leol. Myfyriodd y grŵp hefyd ar eu cylchoedd dylanwad.

# Llinellau Cyffuriau




Ddydd Mawrth 28 Ionawr 2020, rhoddodd Swyddogion Cyswllt Ysgolion fewnbwn i ddisgyblion ysgolion uwchradd lleol ar Linellau Cyffuriau.

Dyma ddarn o adborth a gafwyd gan y Swyddogion:


*"Yn ôl pob golwg, mwynheodd y bobl ifanc y mewnbwn, roedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y wybodaeth a gobeithio'u bod wedi gallu dysgu rhai pethau gwerthfawr."*

Helpodd y cyflwyniad y bobl ifanc i ddeall beth yw Llinellau Cyffuriau.

Rhybuddiodd am y risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn gangiau troseddol.

Helpodd iddynt adnabod unrhyw arwyddion y gallai gangiau troseddol fod yn camfanteisio ar eu cydnabod, a deall pwy sydd mewn perygl o gamfanteisio o'r fath.

Cafwyd trafodaethau hefyd ynglŷn â'r hyn y gallai rhywun ei wneud os ydynt yn poeni bod rywun maent yn ei adnabod, neu eu hunain, yn cael eu heffeithio gan y materion sy'n gysylltiedig â Llinellau Cyffuriau.




Dyma beth o'r wybodaeth a'r cyngor a rannwyd:

Mae gan gangiau o ddinasoedd mawr ddiwylliant gangiau amlwg; ffordd o fyw sy'n ymwneud â mwynhau statws penodol, delio cyffuriau, cerddoriaeth, ffasiwn, rhyw, creu fideos i hyrwyddo'u ffordd o fyw, gweithredoedd treisgar a gweithgareddau troseddol eraill. Mae rhai pobl ifanc yn cael eu denu at hyn. Gall merched ddechrau ymhél â'r byd hwn drwy berthnasau a chariadon. Bydd aelodau gangiau yn aml yn cymryd rheolaeth dros y prosesau delio cyffuriau sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal newydd, gan fod yn barod i ddefnyddio trais eithafol i gael yr hyn y maent ei eisiau; sef gwerthu cyffuriau i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. (Maen nhw'n gwerthu'r cyffuriau trwy ddefnyddio llinellau ffôn penodol).

Yn aml byddant yn gwneud rhywbeth o'r enw **cogio** (cuckooing); mae person bregus yn cael ei dargedu, fel defnyddiwr cyffuriau, ac mae aelod y gang yn ymsefydlu yng nghartref yr unigolyn, gan greu canolfan ar gyfer ei weithgarwch troseddol yno.

# Seremoni Gloi

Ddydd Sadwrn 25 Ionawr, cynhaliwyd Seremoni Gloi i nodi ymadawiad yr Angel Cyllyll. Mynychodd cannoedd o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Daeth y Seremoni Gloi i ben gyda gorymdaith ganhwyllau deimladwy drwy'r dref, gyda chyfranogwyr yn cario canhwyllau batri bychain neu ffaglau i oleuo eu ffordd fel rhan o'r orymdaith.

Dywedodd y Cynghorydd Joy Jones: *"Roedd yn anhygoel. Mae'r diwrnod cyfan wedi bod yn rhyfeddol. Daeth nifer aruthrol o bobl i'w digwyddiad. Roedd blodau a thorchau yn cael eu rhoi i lawr wrth ochr yr angel. Roedd yn arbennig."*

Ychwanegodd Clive Knowles, Cadeirydd a Sylfaenydd Canolfan Gwaith Haearn Prydain: *"Powys oedd y lleoliad cyntaf i ddod â gorymdaith drwy'r dref, a oedd yn cynnwys nifer o swyddogion nodedig."*



Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn: *"Dw i'n gobeithio y galla' i hawlio mai fi oedd y person cyntaf i groesawu'r Angel yn Gymraeg. Ac rydw i'n gyffrous am yr hyn rydyn ni wedi gallu ei gyflawni yma dros yr wythnosau diwethaf.*

*Ardal Dyfed-Powys yw'r mwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr; mae gennym gyfraddau troseddu isel, lefelau isel o droseddau treisgar ac yn sicr lefelau isel o droseddau cyllyll, ond nid ydym yn gwbl ddiogel rhag trosedd.*

*"Rwy'n gweld yr ardal hon fel y rheng flaen wrth atal troseddau rhag treiddio i'n cymunedau.*

*Mae'r neges sy'n gysylltiedig â'r Angel Cyllyll yn pwysleisio atal troseddu - rwy'n llawn ysgogiad o hyd i weld ardal Dyfed-Powys fel y lle mwyaf diogel, ac rwyf am i'n pobl ifanc deimlo'n saff a diogel. Rhaid i ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd fod yn gatalydd i hyrwyddo negeseuon allweddol sy'n nodi pwysigrwydd atal troseddau.*

*Rhaid diolch i'r Cynghorydd Joy Jones, am fod yn arweinydd cymunedol lleol sy'n gwthio'r ffiniau ac yn cyflawni pethau ar lawr gwlad.*

*Rwy'n gobeithio y bydd y gymuned yma yn y Drenewydd, a thu hwnt ym Mhowys, yn manteisio ar y cyfle hwn i ddeall y neges allweddol hollbwysig am atal troseddu, yn enwedig mewn perthynas â thrais difrifol a throseddau cyllyll. Ni fydd unrhyw fath o drais nac ymddygiad ymosodol yn cael ei oddef."*



*Y Daith Gerdded yng Ngolau Cannwyll yn ystod y Seremoni Gloi*






# Amnest Cyllyll

Un o lwyddiannau eraill ymweliad yr Angel Cyllyll oedd rhoi bin amnest cyllyll wrth ymyl y ffigur trawiadol, gan annog pawb i *'ildio cyllyll i arbed bywydau' ('surrender knives to save lives').* Cafodd y bin ei wagio cyn i'r Angel adael, ac roedd yn llawn. Mae Canolfan Gwaith Haearn Prydain wedi cadarnhau y bydd yn creu darn allan o'r cyllyll hyn, a fydd yn cael ei arddangos ym Mhowys ar ôl iddo gael ei gwblhau.



Dyma ddywedodd Clive Knowles: *"Dyma'r tro cyntaf i dref gefnogi defnyddio lansiad y Gofeb Genedlaethol yn erbyn Trais ac Ymddygiad Ymosodol i gychwyn amnest a chyfle i ildio arfau i gyd-fynd â dyddiadau ymweliad yr Angel Cyllyll. Roedd canlyniadau gwneud hynny yn anhygoel, o ran bod casgliad mawr iawn o gyllyll ac arfau tanio peryglus wedi'u cymryd oddi ar y strydoedd. Gall y llwyddiant hwnnw ysbrydoli gweddill y Deyrnas Unedig wrth edrych tua'r dyfodol."*



Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i roi'r llafnau a gasglwyd o'r amnest hwn i greu Cerflun Gwrth-drais ar gyfer Powys.




*Lluniau gan Dr Greg Langridge-Thomas*

# Craffu

Un o effeithiau positif ymweliad yr Angel Cyllyll oedd yr ymwybyddiaeth gynyddol o droseddau cyllyll, ac roedd hyn yn gyfle delfrydol i'r mater gael ei ystyried a'i drafod gan Banel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Panel yn gwneud gwaith asesu, craffu a rheoli ansawdd annibynnol ar y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys (fel rhybuddiadau, penderfyniadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid), gan Heddlu Dyfed-Powys.

Gallant gyflwyno argymhellion, rhoi adborth i swyddogion ar achosion unigol, cyfleu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion posibl o ran hyfforddi neu ddatblygu polisi er mwyn i'r Heddlu neu asiantaethau eraill eu hystyried.

Yn eu cyfarfod ar 27 Ionawr 2020, tra roedd yr Angel Cyllyll yn y Drenewydd, ystyriodd y Panel 9 o achosion Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys â phobl ifanc, yn ymwneud â throseddau cyllyll; penderfynwyd yr ymdriniwyd â 5 ohonynt yn briodol, a barnwyd yr ymdriniwyd â 4 o'r achosion yn briodol ond cafwyd amheuon ynghylch a oedd y canlyniadau'n gywir.

Ystyriodd y Panel 13 o achosion Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys yn ymwneud ag oedolion hefyd, ac ystyriwyd yr ymdriniwyd â 2 ohonynt yn briodol, 6 yn briodol gydag amheuon, a 5 yn amhriodol. Roedd yr achosion y barnwyd eu bod yn amhriodol yn ganlyniad i ormod o drugaredd, a theimlai'r Panel y dylent fod wedi arwain at gyhuddiad neu rybudd amodol.

Mynegodd y Panel bryderon ynghylch anghysonderau wrth roi canllawiau ar waith mewn perthynas â sut y mae pobl ifanc sy'n cael eu dal yn cario cyllyll neu arfau yn cael eu trin mewn gwahanol siroedd. Mynychodd y Comisiynydd y cyfarfod hwn gan y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys ac ers hynny mae wedi crybwyll pryderon y Panel gyda'r Prif Gwnstabl ar y Bwrdd Plismona, sef cyfarfod bob tair wythnos lle mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i barhau â'r mater.

Mae ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd hefyd wedi rhoi cyfle i Heddlu Dyfed-Powys adolygu effaith y cerflun a'r gweithgarwch ymgysylltu cysylltiedig ar ystadegau troseddu yn yr ardal leol. Byddant yn awr yn gallu asesu a fu gostyngiad mewn troseddau cyllyll yn yr ardal, ac adolygu sut y mae'r ymgyrch a chyfleoedd addysgol i bobl leol wedi effeithio ar ystadegau troseddu.

# Gwaddol yr Angel

## "Rhoddodd yr Angel Cyllyll y Drenewydd ar y Map"

Dywedodd y Cynghorydd Joy Jones, a fu'n allweddol wrth ddod â'r Angel Cyllyll i'r Drenewydd:

*"Pan welais i'r Angel Cyllyll am y tro cyntaf fe wyddwn i fod rhaid iddo ddod i'r Drenewydd. Ar ôl gweld yr effaith y mae trais yn ei chael gyda'm llygaid fy hun, roeddwn i am ddod â'r Angel Cyllyll i Bowys i ddangos nad oes lle i drais yn ein sir.*

*"Roeddwn i mor falch o'r Drenewydd a Phowys i gyd am ddod at ei gilydd i sefyll yn erbyn trais, ac i ddangos nad oes lle i drais yn ein cymunedau. Roedd yr Angel Cyllyll yn symbol i bawb yn dangos na oddefir unrhyw fath o drais na throsedd yn gyffredinol ym Mhowys, boed hynny'n drais yn y cartref, llinellau cyffuriau, neu fwlio. Nid oes lle iddo, ac roedd yr Angel Cyllyll yn symbol o hynny.*

*"Rhoddodd yr Angel Cyllyll y Drenewydd ar y map, a daeth pobl o bob cwr o'r DU i'w weld. Manteisiodd pobl ar y cyfle i oedi a myfyrio ar eu bywydau, a meddwl sut y gall eu penderfyniadau a'u gweithredoedd effeithio ar eraill. Os bydd ymweliad yr Angel Cyllyll i'r dref yn gwneud i un person feddwl cyn gwneud rhywbeth treisgar, bydd wedi bod yn werth ei gael yma. Daeth yr Angel Cyllyll â gwefr go iawn i'r dref, gyda llif cyson o bobl yn dod i weld y cerflun. Helpodd hyn fusnesau lleol i gofnodi eu mis Ionawr prysuraf ers blynyddoedd lawer.*

*"Daeth y gymuned gyfan at ei gilydd a chawsom weithgareddau bob dydd yn addysgu, rhoi gwybodaeth ac ysbrydoli pobl i leisio'u gwrthwynebiad i gasineb a thrais. Un o'r pethau sy'n sefyll yn y cof i mi oedd siarad â grwpiau o blant a'u clywed nhw'n dechrau rhannu hanesion am y trais yr oeddent wedi'i weld a'r effaith yr oedd hynny wedi'i ei chael ar eu bywydau nhw. Roedd yn amlwg bod trais nid yn unig yn effeithio ar y rhai sy'n dioddef yn uniongyrchol, ond y teulu cyfan hefyd.*

*"Gwnaeth ymweliad yr Angel Cyllyll â Phowys ddatganiad mor bwysig i gynifer o bobl: bod Powys yn sefyll yn gadarn yn erbyn trais."*

## Mwy o Ymwybyddiaeth

Hwn oedd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i gamu ymlaen mewn ymgais i roi hwb i'r neges gwrth-drais ac ymddygiad ymosodol ar gyfer y gymuned gyfan: dyma wnaeth arhosiad yr Angel yn y Drenewydd yn achlysur gwirioneddol gofiadwy.

Drwy ddod â'r Angel i'r Drenewydd, gwnaeth Cyngor Sir Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymrwymiad i gynnal 28 diwrnod o weithdai a rhaglenni addysgol dwys - ond hwn hefyd oedd y rhanbarth cyntaf i ymrwymo i dargedu a dirprwyo 10,000 o Hyrwyddwyr Gwrth-drais.

Mae'r ymgyrch hon yn cwmpasu ysgolion a grwpiau ieuenctid drwy alluogi pobl ifanc i sefyll yn erbyn pob math o drais ac ymddygiad ymosodol, nid dim ond troseddu â chyllyll. Mae llawer o ysgolion ym Mhowys wedi ymweld â'r Angel Cyllyll ac wedi elwa o'r gweithdai a drefnwyd – yn arbennig Sgwrs Ysgolion Fearless Crimestoppers, sy'n brosiect y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ei ariannu.

## Mwy o Ymwelwyr i'r Drenewydd

Er nad oes ffigyrau swyddogol wedi eu cofnodi ar gyfer y nifer o bobl sydd wedi ymweld â'r gofeb, mae'r trefnwyr a'r gwirfoddolwyr yn amcangyfrif bod miloedd wedi ymweld yn ystod y nos a'r dydd - gyda llawer yn teithio i'r Drenewydd o bob cwr o'r DU. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar economi'r Drenewydd a gobeithio y bydd yn annog ymwelwyr i ystyried y Drenewydd fel rhywle i ymweld ag ef eto yn y dyfodol.

## Grwpiau Cymunedol

Gofynnwyd i sawl grŵp cymunedol am eu sylwadau ar yr Angel Cyllyll wedi iddo adael yr ardal ac ynglŷn â'r ôl y mae wedi'i adael:

*'Wyddwn i ddim fod troseddau cyllyll mor gyffredin, neges gref iawn'.*

*'Mae'n gwneud i chi feddwl faint o fywydau sydd wedi'u colli a theuluoedd wedi'u difetha, cerflun pwerus a chlyfar tu hwnt'.*

*'Roedd yn hardd iawn'.*

*'Roedd yn edrych yn neis ond fe wnaeth i mi feddwl bod troseddau cyllyll yn fwy o beth nag oeddwn i'n meddwl'.*

*'Roedd yn ddarn hyfryd o waith celf ac roedd yn fraint cael edrych draw arno gyda'r nos'.*

*'Anfonodd neges bwysig yn datgan mai troseddau cyllyll yw'r llwybr anghywir i'w ddilyn'.*

Wrth iddi nosi ac wrth i'r dorf adael, byddai pobl ifanc yn ymweld â'r cerflun, yn darllen y negeseuon a adawyd ar gyllyll, ac yn eu trafod gyda'u cyfoedion. Roedd yr awyrgylch llonydd a myfyriol yn darparu lle i ymgysylltu â'r bobl ifanc, yn bennaf i wrando ar eu dealltwriaeth a'u meddyliau am yr Angel Cyllyll a'i arwyddocâd, ond hefyd i hyrwyddo ein gwasanaeth a chynnig cefnogaeth, gwasanaeth cyfeirio ac i wrando.

Yn sgil ymweliad yr Angel Cyllyll â Phowys, hyrwyddwyd cyfleoedd i drafod gwrthdaro a thrais, o fewn y cartref ac o fewn y gymuned. Mae ei ymweliad wedi rhoi ymwybyddiaeth sy'n galluogi pobl ifanc i herio barn eraill, gan gynnwys y rhai sy'n agos atynt, ac i rannu eu pryderon. Mae ganddynt well dealltwriaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chario arf, a'r effeithiau y mae cyffuriau ac alcohol yn eu cael ar gymdeithas.

## Nodyn gan y maer

Rhannodd y Cynghorydd Sir a Maer y Drenewydd, David Selby, ei feddyliau gyda'r Comisiynydd ar effaith yr Angel Cyllyll ar y Drenewydd:

*"Roedd yr Angel Cyllyll yn ychwanegiad trawiadol i'r dref yn ystod ei arhosiad gyda ni. Daeth ag ymwelwyr i'r dref gan ddod yn ganolbwynt i sawl trafodaeth. Mae'n annhebygol y byddai'r math o drafodaethau o fewn y gymuned am*

*drosedd a thrais wedi digwydd heb ei bresenoldeb yn ein plith.*

*"I lawer, roedd bod wrth ei ymyl yn brofiad dirdynnol; i eraill roedd yn gerflun trawiadol, prin oedd y rhai oedd yn niwtral yn ei gylch. Felly, cyflawnodd ei nod o hwyluso trafod a dadlau."*


## Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Comisiynydd a Chanolfan Gwaith Haearn Prydain wedi cadarnhau y bydd yr Angel Cyllyll yn dychwelyd i ardal Dyfed-Powys yn 2021 pan fydd yn ymweld â thref Aberystwyth, Ceredigion.

## Gwobrau Blynyddol Heddlu Dyfed-Powys

Mae'r tîm a weithiodd ar y cyd i sicrhau ymweliad llwyddiannus yr Angel â'r Drenewydd wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr Partneriaeth y Comisiynydd yng Ngwobrau Blynyddol Heddlu Dyfed-Powys. Yn anffodus mae'r seremoni wedi ei gohirio oherwydd COVID-19, ond roedd cael ei roi ar restr fer y Wobr yn llwyddiant mawr i'r grŵp.





*Arddangosfa goleuadau'n newid lliwyr Angel Cyllyll*

## Dogfen a dderbyniwyd gan Mary Tudor, y Siambr Fasnach

# Knife Angel Powys Project
# January 2020

PCC Community Development Fund
Outputs Data as at 31/01/2020

NEWTOWN CHAMBER OF TRADE

**Facebook KAP Public Page** - **1065 Members** (was more, is now private and some members removed)
**Facebook KAP Organisers Private Group** - **26 Members** (was more, some members have left)
**Knife Angel Powys Contributors = 50 including the following...**

**Organisers**

PCCllr Joy Jones
DPP&C Commissioner - Dafydd Llywelyn

British Ironworks Centre
DPP&C Commissioner's Office
Dyfed Powys Police
Newtown & Llanllwchaiarn Town Council
Newtown Chamber of Trade
Powys County Council

**Sponsors**

AlTechnical, Newtown
Bear Lanes Management, Newtown
CSS Security, Newtown
Frank Moore's Photographs, Newtown
Graham Flooring & Cladding, Welshpool
H18-Pdw Photography, Newtown
Morgans Of Newtown (Builders Merchants)
Oriel Davies Gallery, Newtown
Rory Evans Ghost Stories (Fundraising for MFCC)
Unison
Ustrike, Newtown

**Organisations**

Fearless
Montgomeryshire Family Crisis Centre (MFCC)
New Pathways (SURE - Mental Health Workshop)
Newtown Community Cafe
Newtown Integrated Family Centre
Newtown Policing Team & Cadets
Ponthafren Association
Powys School Liaison Officers
Powys Youth Services
Pupil Referral Unit

**Schools**

Banw CP
Cedewain, Newtown
Hafren CP Junior, Newtown
Ladywell Primary, Newtown
Llanbister Primary
Maesyrhandir Primary, Newtown
Maldwyn Day Nursery, Newtown
Newtown High
Penygloddfa Primary, Newtown
St Mary's Catholic Primary, Newtown
Treowen Primary, Newtown
Welshpool Church in Wales Primary
Ysgol Dafydd Llwyd & Cylch Meithrin, Newtown

**Youth Groups**

Abermule Cubs
Girlguiding Montgomeryshire
Montgomeryshire YFC
Newtown Army Cadets
Newtown Brownies & Rainbows
Newtown Youth Club
St Johns Cymru, Caersws
St Johns Cymru, Newtown

**Visitor Locations** (not exclusive)

All over Powys & Wales
Birmingham
Bristol
Cambridge
Hampshire
Hereford
London
Milton Keynes
Telford
Wolverhampton
Scotland


KAP PCC CDF Information

**Dogfen a dderbyniwyd gan Gwen Evans, Gweithiwr Ieuenctid ym Mhowys**








## Yr Angel Cyllyll: Cerflun Gwrth-drais Powys yn y Drenewydd, Ionawr 2020

Drwy gydol mis Ionawr 2020, arddangoswyd y gofeb yn y Drenewydd. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd gweithdai Gwrth-drais yn y Canolfannau Ieuenctid ac ymweliadau â'r Angel. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn gwahanol weithgareddau gan hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, a thrafodwyd canlyniadau trais.

Gweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid ochr yn ochr â'r Tîm Plismona Bro, PAVO, y Gegin Gawl leol, Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn a llawer o bobl eraill i gyflwyno'r neges ynghyd â chreu pecyn adnoddau ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Dywedodd y Cynghorydd Joy Jones: "Mae'r cerflun wedi denu pobl o bell ac agos; mae'n ffordd o gofio a thalu teyrnged i ddioddefwyr niferus troseddau cyllyll a throseddau treisgar eraill sydd efallai wedi effeithio ar eu bywydau.

"Mae plant ysgol wedi ymweld, ac mae grwpiau ieuenctid lleol wedi cymryd rhan wrth i'r neges wrth-drais gael ei lledaenu drwy ein cymuned. Y tu mewn i'r babell, mae negeseuon o obaith wedi eu hysgrifennu gan blant."